Creu **traciwr anifeiliaid**

Byddwch angen

- Hambwrdd pobi
- Astell fechan neu bren mesur hir
- Tywod mân, gwlyb
- Desgl fechan fas
- Bwyd ci neu gath

Dewch i ddarganfod pwy sydd wedi bod yn effro dros nos wrth i chi gysgu'n sownd!

1 Llenwch yr hambwrdd â thywod gan lyfnhau'r wyneb gydag ochr y pren mesur neu'r astell.

2 Rhowch ychydig o fwyd anifail yn y ddesgl a'i gosod yn dynn yng nghanol yr hambwrdd.

3 Gadewch eich defnydd tracio allan dros nos er mwyn gweld yn y bore a oes ôl traed wedi'i adael ynddo. Taflwch y bwyd anifeiliaid i ffwrdd yn y bore, cyn iddo fynd yn ddrwg.

yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan Eleanor Bentall (rspb-images.com).